



## **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Hunanladdiad – noddwyd gan Jayne Bryant AS**

Dydd Mawrth 19 Hydref 2021

12.30pm – 1.25pm

Dros gyfrwng Zoom

### **Cofnodion y cyfarfod**

**Yn bresennol:** Alun Fletcher (Materion Iechyd Meddwl Cymru), Meryl James (Samariaid), Glenn Page (Mind Cymru), Steve Siddall (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub), David Williams (Rhwydwaith Cymuned Ffermio), Willow Holloway (Triniaeth Deg i Fenywod Cymru / Autistic UK), Dr Alys Cole-King (4 Mental Health), Rabiya Nasir (y Swyddfa Ystadegau Gwladol), Madeline Phillips (Cydffederasiwn GIG Cymru), David Crews (Tân ac Achub De Cymru), Jayne Bell (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), Amy Bainton (Barndaro's Cymru), Maggy Corkhill (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl / Cynghrair Co-alc), Ana Reis-Rogers (Living in Suicide's Shadow), Lisa Hammett (Living in Suicide's Shadow), Emyr John (y Swyddfa Ystadegau Gwladol), Janette Bourne (Gofal Galar Cruse Cymru), Philippa Watkins (Senedd Cymru), Helen Bennett (Heddlu De Cymru), Kate Heneghan (Papyrus), y Ditectif Uwcharolygydd Phil Sparrow (Heddlu De Cymru), David Patel (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), Dr Dave Williams (Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan), Emma Kneebone (2 Wish Upon A Star), Peter Thomas (Heddlu De Cymru), Caryl Stock (Prosiect Amber), Liz Williams (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion), Jackie Williams (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Mark Smith (Prosiect 6699), Gareth Davies (Tir Dewi), Lucy Smith (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi), yr Athro Ann John (Prifysgol Abertawe), James Radcliffe (Platform), Charlotte Knight (Senedd Cymru), Sarah Murphy AS (Senedd Cymru), Emma Gooding (Samariaid), Sarah Stone (Samariaid), Jayne Bryant AS (Senedd Cymru), Laura Frayne (Samariaid).

**Ymddiheuriadau:** Llyr Gruffydd AS; Rhun ap Iorwerth AS; Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Heddlu Dyfed Powys); Ana Laing (Samariaid); Delyth Jewell AS; Altaf Hussain AS; Siân Bamford (Heddlu Dyfed Powys).

### **12.30pm: Croeso a chyflwyniadau**

Cyflwynodd Jayne Bryant AS ei hun a diolchodd i bawb am ddod i'r cyfarfod. Cydnabu Jayne y ffaith y gallai peth o'r deunydd a fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod beri trallod i rai. Nododd y gallai'r rhai a oedd yn bresennol gamu i ffwrdd o'r cyfarfod a chael seibiant o'r trafodaethau pe byddai angen iddynt wneud hynny, a bod hawl iddynt ofyn am gymorth yn dilyn y cyfarfod hefyd.

### **12:35pm: Materion gweithredol y grŵp**

Gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y grŵp, roedd yn rhaid cynnal etholiad er mwyn dethol Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth y grŵp. Eglurodd Sarah Stone fod un enwebiad wedi dod i law ar gyfer rôl y Cadeirydd, sef Jayne Bryant AS, a bod Jayne wedi cael cefnogaeth

drawsbleidiol gan Aelodau o'r Senedd. Yn amodol ar gadarnhad terfynol yr Aelodau hynny, dywedodd Sarah y dylai fod yn iawn i'r grŵp fwrw ymlaen a'i waith. Yn dilyn hynny, cafodd Jayne Bryant AS ei henwebu fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, a chafodd yr enwebiad hwnnw ei gymeradwyo. Enwebodd Jayne Bryant AS sefydliad Samariaid Cymru i weithredu fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, a chafodd yr enwebiad hwnnw ei gymeradwyo. Diolchodd Jayne i elusen y Samariaid am ymgymryd â'r rôl hon ac am ei chefnogaeth barhaus.

### **12:45pm: Nodi amcanion y grŵp**

Gofynnodd Jayne Bryant AS i aelodau'r grŵp fynegi barn ynghylch beth ddylai amcanion y grŵp fod. Ychwanegodd Sarah Stone mai diben grwpiau trawsbleidiol yw llywio dadleuon a thrafodaethau, a bod cyfle i'r grŵp ganolbwyntio ar feysydd o bryder a diddordeb, gan ysgogi dadleuon yn y Cyfarfod Llawn, ysgrifennu adroddiadau ac ati. Ar ôl y cyfarfod hwn, byddai cyfle i'r Samariaid rannu gwybodaeth hefyd am yr hyn yr oedd y grŵp yn ei wneud yn flaenorol, pe byddai angen gwneud hynny, ac i gasglu awgrymiadau gan bobl ar gyfer gwaith y dyfodol.

Roedd Jayne o'r farn bod angen i'r grŵp geisio cael cam gweithredu ar gyfer pob cyfarfod, megis ysgrifennu llythyr at Weinidog neu wneud cais am ddadl yn y Senedd, ac yn y blaen. Dywedodd Jayne y dylai fod diben i bopeth sy'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd hyn, a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl gweld a yw'r grŵp yn bodloni ei amcanion. Ar ddiwedd y cyfarfod, byddai modd cadarnhau prif ffocws y cyfarfod nesaf. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod staff cymorth Aelodau o'r Senedd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y grŵp, fel y gallant fod yn bresennol ar ran yr Aelodau os oes angen. Dywedodd Jayne fod angen i'r grŵp feddwl am sut y gallai ddylanwadu ar Weinidogion ac Aelodau o'r Senedd. Mae'r grŵp yn ffodus mai Lynne Neagle AS oedd yn cadeirio'r grŵp hwn yn flaenorol. Mae gan Lynne rôl newydd bellach, sef Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Eglurodd Jayne fod Lynne yn awyddus i ddod i'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr. Dywedodd ei bod yn gobeithio y gall Lynne nodi ei hamcanion a'i nodau yn ystod y cyfarfod hwnnw, er mwyn i'r grŵp glywed mwy am ei rôl. Cytunodd y grŵp â hyn.

**Cam gweithredu: Jayne Bryant AS i wahodd Lynne Neagle AS i'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr i siarad am ei rôl newydd, sef Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.**

### **1pm: Rhaglen waith y grŵp trawsbleidiol**

Gofynnodd Jayne i aelodau'r grŵp nodi unrhyw bynciau eraill yr oeddent yn teimlo y dylai'r grŵp weithio arnynt.

Dywedodd Mark Smith fod gwaith ymchwil y Samariaid ar iechyd meddwl dynion yn hynod galonogol. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Mark wedi bod yn siarad â chwe grŵp cymorth cymheiriaid ar iechyd meddwl dynion ledled De Cymru, gan edrych ar sut y byddai modd dod â'r grwpiau hynny ynghyd i ffurfio rhyw fath o rwydwaith. Drwy eu gwaith, mae'r grwpiau cymorth wedi nodi'r angen am hyn, ac mae'r adborth a gafwyd gan y grwpiau wedi bod yn drawiadol. Maent hefyd wedi bod yn atgyfeirio dynion ar gyfer gwasanaethau cwnsela, ond i barhau â'r gwaith hwn, mae angen mwy o arian. Mae'r grwpiau wedi'u gwasgaru ar draws tair ardal bwrdd iechyd, a gofynnodd Mark a fyddai lle i archwilio'r mater hwn ymhellach yn y grŵp hwn. Dywedodd Jayne Bryant y gallai'r grŵp edrych ar y mater, a'i bod y bosibl y gallai'r grŵp wneud cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Esboniodd Janette Bourne fod tipyn o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ym maes profedigaeth, a bod Lynne Neagle AS wedi ymgymryd â'r portffolio hwn fel rhan o'i rôl weinidogol. Dywedodd fod fframwaith newydd ar fin cael ei lansio. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn deall natur y dirwedd o ran cymorth profedigaeth yng Nghymru. Y

gobaith yw y bydd y fframwaith hwn yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael mynediad cyfartal at gymorth, ble bynnag y maent yn byw. Bydd grant ar gael hefyd i gefnogi'r gwaith hwn. Ychwanegodd Janette fod llawer o waith yn cael ei wneud ar atal hunanladdiad ar hyn o bryd. Tynnodd sylw at waith y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niweidio, a rôl y cydlynwyr cenedlaethol a rhanbarthol ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Awgrymodd Janette y byddai'n ddefnyddiol pe byddai modd cydblethu'r holl waith cyfredol hwnnw yn nhrafodaethau'r grŵp yn y dyfodol. Cytunodd Jayne Bryant fod gwaith ym maes profedigaeth yn bwysig iawn, a bod cyfle i'r Grŵp Trawsbleidiol ychwanegu gwerth at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn.

Cadarnhaodd Jayne Bryant fod Sarah Murphy AS wedi ymuno â'r cyfarfod.

Awgrymodd Amy Bainton y byddai canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau pobl ifanc yn bwysig. Eglurodd Amy fod Barnardo's yn poeni am effaith y pandemig, a soniodd am y posibilrwydd y bydd angen addasu'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd a fyddai modd myfyrio ychydig ar y math o faterion y mae gwasanaethau yn eu hwynebu, ac yna trosglwyddo'r wybodaeth honno i Lywodraeth Cymru. Eglurodd Jayne Bryant ei bod hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac y byddai'n gallu darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor hwnnw am faterion perthnasol y mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn eu trafod. Ychwanegodd Jayne ei bod yn awyddus i weld y Grŵp yn cyfathrebu â'r holl bwyllgorau perthnasol.

Eglurodd Willow Holloway ei bod am i'r grŵp edrych ar y gyfradd uchel o hunanladdiad sydd i'w gweld yn y gymuned awtistig, a'r gyfradd uchel sydd i'w gweld ymhlith menywod. Mater arall i'w archwilio yw'r cysylltiad rhwng hunanladdiad a phoen cronig, a'r cysylltiad rhwng hunanladdiad a'r system fudd-daliadau. Diolchodd Jayne i Willow am yr awgrymiadau, a nododd y byddai rhoi ffocws penodol ar y meysydd hyn, a gwahodd pobl i roi tystiolaeth i'r grŵp yn eu cylch, yn taflu rhagor o oleuni ar y materion dan sylw.

Roedd Lisa Hammett am ategu'r hyn a ddywedodd Mark am y grwpiau cymorth ar iechyd meddwl dynion. Esboniodd Lisa nad oedd hi'n ymwybodol o'r grwpiau hynny, a'i bod wedi lansio grŵp cymorth ei hun yng Nghaerfyrddin. Dywedodd ei bod yn teimlo bod angen meithrin cysylltiadau at ddibenion dangos pa grwpiau sy'n bodoli, fel bod pobl yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Cytunodd Jayne Bryant fod dwyn y grwpiau gwahanol ynghyd yn gam allweddol, a bod angen ceisio cydlynu'r gwaith hwnnw.

Eglurodd Glenn Page ei fod o'r farn mai maes ffocws allweddol i'r grŵp hwn yw parhau i edrych ar yr hyn a gyflawnwyd yn nhymor y Senedd ddiwethaf, a'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei adroddiad ar atal hunanladdiad, sef 'Busnes Pawb'. Gofynnodd Glenn a fyddai gan y Pwyllgor yr hawl i ddychwelyd at yr adroddiad dan sylw yn ystod y tymor hwn. Dywedodd y byddai'n dda cael gofyn cwestiynau ynghylch y camau yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru iddynt yn sgil yr adroddiad, ond nad ydynt eto wedi'u cymryd, yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau gofal argyfwng. Ychwanegodd ei bod yn bwysig bod popeth a gyflawnwyd yn parhau i ddigwydd, a bod y grŵp yn dwyn pobl i gyfrif er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Hefyd, gyda rhaglen 'Law yn Llaw dros Iechyd Meddwl' yn dod i ben, a gwerthusiad ac adolygiad annibynnol o 'Siarad â fi 2' wedi'i gomisiynu, a fydd y grŵp hwn yn cael cyfle i fwydo i mewn i'r gwaith hwnnw a llywio cyfeiriad yr hyn a ddaw nesaf? Eglurodd Jayne fod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am adeiladu ar y gwaith da a wnaed gan yr adroddiad 'Busnes Pawb', a'i fod yn cydnabod yr angen i weld rhagor o argymhellion yn cael eu cyflawni. Awgrymodd Jayne y gellid codi'r mater hwn gyda Lynne Neagle AS yng nghyfarfod y grŵp ym mis Ionawr. Eglurodd Jayne fod pob pwyllgor ar hyn o bryd yn parhau

i edrych ar eu blaenoriaethau a'r ymchwiliadau y maent yn dymuno eu cynnal. Felly, mae'n ddigon posibl y bydd y pwyllgor yn edrych ar hyn yn ystod y Senedd hon. Fodd bynnag, mae angen i'r grŵp weithio'n gall a gweld pa werth y gall ei ychwanegu.

Gwnaeth Gareth Davies sylwadau ynghylch y wybodaeth am yr ystadegau hunanladdiad a oedd yn destun trafod yn y blwch sgwrsio. Dywedodd fod angen bod yn ofalus, gan nad yw'r ffigurau ar gyfer hunanladdiad bob amser mor syml ag y maent yn ymddangos. Dywedodd fod yr ystadegau diweddar ym maes ffermio yn dangos na fu unrhyw ostyngiad mewn hunanladdiadau. Cytunodd Sarah Stone fod angen bod yn ofalus wrth drafod ystadegau sy'n ymwneud â hunanladdiad. Ychwanegodd Sarah fod 'Busnes Pawb' yn adroddiad gwych, a bod angen adeiladu arno a deall yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu. Yn ogystal, dywedodd fod angen parhau â'r drefn o gael cynllun atal hunanladdiad annibynnol yng Nghymru.

Dywedodd Kate Heneghan ei bod yn wych bod y grŵp pwysig hwn wedi cael ei ailsefydlu. Esboniodd Kate fod penderfynyddion cymdeithasol iechyd yn berthnasol i nifer o adrannau yn y Llywodraeth. Dywedodd y dylai plant a phobl ifanc fod yn faes ffocws allweddol i'r grŵp, yn ogystal â chasglu data a cheisio mynd i'r afael ag ystadegau hunan-niweidio. Gofynnodd Kate a fyddai modd i'r Athro Ann John ddarparu gwybodaeth am ystadegau mewn cyfarfod yn y dyfodol. Esboniodd Kate fod ganddi ddiddordeb hefyd mewn edrych ar y llwybrau ar gyfer pobl ifanc a drafodwyd yn yr adolygiad thematig, a bod angen edrych ar y cyfleoedd a gollwyd a dysgu o'r gwaith da sydd wedi'i wneud. Awgrymodd Jayne Bryant y gallai'r grŵp ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn tynnu sylw at y themâu allweddol a nodwyd gan y grŵp. Byddai modd rhoi rhywbeth at ei gilydd hefyd ar gyfer Lynne Neagle AS cyn y cyfarfod ym mis Ionawr, a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am rai materion.

Esboniodd Maggy Corkhill ei bod hi am gael cyfle i wneud cyflwyniad ar ei gwaith hi fel rhan o'r Gynghrair Co-Alc, ac i archwilio'r posibilrwydd o gynnwys y gwaith hwn yn y strategaeth 'Siarad â fi 2'. Soniodd Maggy am yr ymchwil a wnaed yn ddiweddar yn y maes hwn gan Goleg Imperial. Roedd yr ymchwil yn edrych ar y cysylltiad rhwng defnyddio cocên ac alcohol, a hunanladdiad. Trafododd Maggy yr adroddiad ymhellach, gan egluro bod yr ymchwil yn awgrymu bod angen mwy o dystiolaeth ac addysg yn y maes hwn. Gwnaeth yr Athro Ann John sylw yn y blwch sgwrsio am yr ymchwil hwn, ac eglurodd fod gwaith yn cael ei wneud yn y maes hwn yng Nghymru, yn edrych ar ddata yn y system Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), i ymestyn ymchwil Coleg Imperial. Mae'r cymeradwyaethau moesegol newydd ddod i law. Felly, bydd data penodol i Gymru ar gael mewn perthynas â chocên, alcohol a hunanladdiad. Awgrymodd Jayne Bryant y gallai'r mater hwn fod yn thema ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, a'i fod yn fater y gellir ei godi gyda phwyllgorau.

Roedd David Crews am dynnu sylw at sylwadau a oedd yn ymwneud â'i rôl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd yn teimlo y gallai'r grŵp hwn fod yn gyfle da i dynnu sylw at arfer da a'r angen am ddata amser real. Awgrymodd y gallai'r grŵp ganolbwyntio hefyd ar y gwaith da a wneir mewn cymunedau. Roedd David hefyd am dynnu sylw at yr effaith y mae ymdrin â hunanladdiadau a hunan-niweidio yn ei chael ar ymatebwyr cyntaf. Cytunodd hefyd fod angen cymryd gofal wrth siarad am ystadegau sy'n ymwneud â hunanladdiad, gan gofio bod pob ystadegyn yn berson. Eglurodd fod arolwg diweddar wedi canfod bod 27 y cant o'r ymatebwyr cyntaf a gafodd eu cyfweld wedi dweud eu bod wedi ystyried cymryd eu bywyd eu hunain. Gwnaeth Jayne sylwadau ar y pwyntiau a wnaed gan Mark Smith yn y blwch sgwrsio, lle gofynnodd Mark am ffocws ar weithwyr ym meysydd adeiladu, ffermio a chludiant. Dywedodd Jayne fod llawer o awgrymiadau da wedi'u gwneud a oedd yn dangos ehangder a dyfnder y gwaith y bydd angen ei wneud yn y

maes hwn, a'r ffaith bod hunanladdiad yn fater trawsbynciol y bydd angen ymdrin ag ef ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.

Esboniodd Emma Gooding mai un o'r meysydd gwaith allweddol yng Nghymru yw anghydraddoldeb, yr agenda dlodi, ymdrechion lliniaru, a'r cysylltiad â hunanladdiad. Mae gan awdurdodau lleol sydd â lefelau uchel o amddifadedd gyfraddau uwch o hunanladdiad nag ardaloedd eraill. Ychwanegodd Emma mai maes allweddol arall yw'r gwaith a wneir ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a'r ymdrechion a wneir i atal hunanladdiad drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Roedd o'r farn y byddai hwn yn faes ffocws da i'r grŵp. Dywedodd Jayne y bydd natur y cydweithio sy'n digwydd rhwng y pwyllgorau yn allweddol. Mae hi'n awyddus i sicrhau bod canlyniadau yn deillio o bob cyfarfod, a bod y grŵp yn ymgysylltu â chynifer o Aelodau o'r Senedd â phosibl.

**Cam gweithredu: Jayne Bryant i ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi'r materion a drafodwyd.**

Tynnodd Willow sylw at y cod ymarfer sydd wedi cael ei lansio ynghylch darparu gwasanaethau awtistiaeth. Rhaid glynu wrth y cod hwnnw, ac mae'n bosibl y bydd angen meithrin cysylltiadau â'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar y gwaith dan sylw. Eglurodd Caryl Stock fod y Prosiect Amber yn gweithio gyda phobl ifanc traws ac anneuaidd, a phobl ifanc sy'n archwilio eu hunaniaeth. Nod y prosiect yw tynnu sylw at bryderon ynghylch lefelau hunanladdiad ymhlith y grwpiau hynny. Dywedodd Jayne y byddai'r materion hyn yn cael eu hychwanegu at restr o faterion y bydd angen gwneud gwaith pellach arnynt.

Roedd Dr Alys Cole-King am egluro ei bod hi yn bresennol yn y cyfarfod yn rhinwedd ei rôl yn cynrychioli 4 Mental Health. Eglurodd Alys fod atal hunanladdiad wedi bod yn destun trafodaethau eang iawn yn Awstralia, ac mai'r hyn a wnaethpwyd yno oedd meddwl yn strategol am sut y byddai modd cael dylanwad ar y lefel uchaf. Yr hyn sydd angen ei wneud yma yw ceisio dylanwadu ar bolisi, ystyried ffrydiau gwaith posibl, ac ennyn diddordeb y bobl sy'n gweithio ar y portffolios hynny. Dywedodd Jayne fod atal hunanladdiad yn gorwedd o fewn portffolio Lynne Neagle AS. Fodd bynnag, mae hunanladdiad yn fater trawsbynciol, a gwahoddir yr holl Aelodau o'r Senedd i'r grŵp. Serch hynny, os oes gweithgarwch y mae'r grŵp am i Aelodau penodol fod yn rhan ohono, gall y grŵp wahodd yr Aelodau hynny, ac mae croeso i unrhyw un fod yn bresennol. Dywedodd Jayne ei bod yn bwysig bod y grŵp yn gwahodd unigolion yn rhinwedd eu rolau gweinidogol pan fo hynny'n berthnasol. Gorau po fwyaf y gall y grŵp rannu gwybodaeth â phobl a herio pethau. Mae gwir angen taflu goleuni ar yr hyn sy'n digwydd.

Gwnaeth Jayne sylwadau ar bwynt a wnaed gan Helen Bennett yn y blwch sgwrsio, lle soniodd Helen am y cymorth a ddarperir i gyn-filwyr. Nododd Emma Gooding y ffaith bod y Samariaid yn bwriadu lansio ap ar gyfer cyn-filwyr yn fuan. Gwnaeth Liz Williams sylwadau hefyd am y cymorth sydd ei angen ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar y gweithlu hwn.

Diolchodd Jayne i bawb am eu cyfraniadau, ac anogodd aelodau'r grŵp i gysylltu â hi neu Sarah Stone er mwyn cynnig unrhyw awgrymiadau pellach.

### **1.20pm: Pwnc ar gyfer y cyfarfod nesaf a chloi'r cyfarfod**

Cadarnhaodd Jayne y byddai'n gwahodd Lynne Neagle AS i'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr (mae'r dyddiad i'w gadarnhau). Bydd Jayne hefyd yn anfon llythyrau at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a bydd yn gweithredu ynghylch yr ymatebion a fydd yn dod i law.

Diolchodd Jayne i bawb am fod yn bresennol, a daeth â'r cyfarfod i ben.